

Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad: Siambrau'r Farchnad, 5–7 Heol Eglwys
Fair, Caerdydd, CF10 1AT

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **6 Gorffennaf 2021** i:

Is-adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno gyda'r dull rydyn ni'n ei gynnig o ddatblygu polisi er mwyn cydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 2 – Pa eiriaduron neu adnoddau geiriadurol ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am air Cymraeg? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- ✓ Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein
- ✓ Ap Geiriadur Prifysgol Cymru
- ✓ Fersiwn print Geiriadur Prifysgol Cymru
- ✓ Geiriadur yr Academi ar-lein (Saesneg-Cymraeg)
- ✓ Fersiwn print Geiriadur yr Academi (Saesneg-Cymraeg)
- ✓ Geiriadur ar-lein Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- ✓ Geiriadur Prifysgol Bangor ar-lein (Cymraeg-Saesneg)
- ✓ Ap Geiriaduron
- ✓ Cysgeir
- ✓ Y Gweiadur ar-lein
- ✓ Y Geiriadur Mawr (fersiwn print)
- ✓ Geiriadur Cymraeg Gomer (fersiwn print)
- ✓ Bing Translator
- ✓ Microsoft Translator
- ✓ Google Translate
- ✓ Arall (rhowch fanylion)

Sylwadau ategol

Fel sefydliad sydd â'r prif nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac sy'n gweithio'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n naturiol bod ein swyddogion yn troi'n gyson at nifer o'r adnoddau a restrir uchod wrth gyflawni eu gwaith beunyddiol. Buddsoddwyd mewn copïau print o'r adnoddau hyn ar gyfer ein swyddfeydd ond mae swyddogion wedi manteisio'n gynyddol ar yr arlwy electronig yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi dod yn bwysicach nag erioed wrth i bobl weithio o gartref. Mae darparu adnoddau electronig safonol yn rhad ac am ddim yn hanfodol er mwyn cefnogi patrymau gweithio hyblyg yn y dyfodol.

Oherwydd natur lluosog a phytiog y ddarpariaeth bresennol mae gofyn i swyddogion groesgyfeirio rhwng nifer o'r ffynonellau uchod er mwyn dod o hyd i'r geiriau neu gyfuniad o eiriau angenrheidiol. Bydd hefyd gofyn iddynt groesgyfeirio â'r adnoddau a restrir yn

adran 3 isod. Mae hyn yn gofyn am grebwyll ieithyddol datblygedig a dealltwriaeth o ffactorau digon cymhleth megis statws, diben, ac weithiau oed, y cyhoeddiad dan sylw. Nid yw'n rhesymol disgwyl bod gan bob swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ei waith yr amser, y wybodaeth gefndirol, na'r sgiliau angenrheidiol i ymroi i waith ymchwil o'r fath bob tro y mae angen dewis gair – heb sôn am aelodau'r cyhoedd.

Rydym yn darparu hyfforddiant i swyddogion ynghylch natur, diben a dibynadwyedd yr adnoddau uchod yn rhan o raglen o sesiynau sefydlu. Mae'n gallu bod yn drawiadol cyn lleied o ymwybyddiaeth sydd gan swyddogion ohonynt ymlaen llaw – sy'n amlygu'r angen i gydlynu'r ddarpariaeth yn well a'i hyrwyddo.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg drwydded hyd 2027 i gyhoeddi *Geiriadur yr Academi* ar lein. Mae'n adnodd hynod boblogaidd a chafwyd 2,459,536 chwiliad ynddo yn ystod blwyddyn ariannol 2019–20, er enghraifft. Mae'r ffaith nad oes cyllid digonol wedi bod ar gael i barhau â'r gwaith o ddatblygu'r geiriadur ar-lein yn destun pryder gwirioneddol i ni fel sefydliad, fel y gwyddoch. Y tu hwnt i'r ffaith nad oes gwaith diweddarau na diwygio wedi digwydd ers blynnyddoedd maith, fel y nodwch yn y ddogfen ymgynghori, nid yw'r gwaith cychwynnol o drosi'r fersiwn print i ddigidol wedi ei gwblhau yn foddhaol chwaith. Y mae nifer o'r cofnodion hiraf a chymhlethaf – sy'n aml yn arwydd o'u pwysigrwydd – yn dal i fod yn binc gan nad ydynt wedi eu trosi na'u prawffddarllen yn llawn. Canlyniad hyn yw bod angen weithiau defnyddio fersiwn print ochr yn ochr â'r fersiwn ar lein er mwyn gwirio cywirdeb cofnodion. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol ac erfyniwn ar y Llywodraeth i sicrhau trefniadau addasach i'r geiriadur pwysig hwn ar fyrder er mwyn cynnal, ac yn wir, gynyddu ei werth i ddefnyddwyr y dyfodol.

Yn ogystal â'r prif adnoddau a restrir uchod rydym hefyd yn defnyddio geiriaduron arbenigol i'n cefnogi i gyflawni ein dyletswyddau, megis *Geiriadur Newydd y Gyfraith* (gol. Robyn Léwis). Mae'n hanfodol bod geirfa safonol ac arbenigol yn cael ei ddatblygu a'i safoni i alluogi pobl i weithio yn Gymraeg ym mhob maes. Bydd peth o'r angen hwn yn cael ei ddiwallu gan brosiectau terminoleg arbenigol, ond rhaid sicrhau bod yna drefniadau digonol mewn lle i fynd i'r afael â'r eitemau hynny sydd ddim yn syrthio'n dwt i'r diffiniad o derminoleg dechnegol ond yn hytrach yn eirfa sy'n pontio nifer o feysydd pwnc, megis geirfa gweinyddiaeth gyhoeddus.

Cwestiwn 3 – Pa **gronfeydd termau** ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am dermau Cymraeg? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- ✓ BydTermCymru
- ✓ Y Porth Termau Cenedlaethol
- ✓ Ap Geiriaduron
- ✓ Cysgeir
- ✓ Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- ✓ Y Termiadur Addysg
- ✓ Arall (rhowch fanylion)

Sylwadau ategol

Defnyddir pob un o'r adnoddau hyn gan swyddogion y Comisiynydd. Fel yr awgrymwyd yn yr ymateb i gwestiwn 2 uchod, yn ogystal â chymharu'r atebion a geir yn y ffynonellau terminolegol hyn, bydd gofyn i'r defnyddiwr groesgyfeirio'n aml â'r adnoddau geiriadurol a restrir yno hefyd er mwyn canfod diffiniad neu ddod o hyd i ateb awdurdodol am orgraff neu ran ymadrodd, er enghraifft. Er bod yna wahaniaethau technegol a chydabyddedig rhwng gwyddor safoni termau a gwyddor geiradura, nid yw'r gwahaniaethau hyn bob amser yn wybyddus i'r defnyddiwr llewg ac mae rhai o'r adnoddau a restrir o dan 2 a 3 uchod yn cymylu'r ffiniau rhwng y disgyblaethau hyn.

Cwestiwn 4a – Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, ar wahân i'r hyn a nodir yn adran 5 y ddogfen ymgynghori, beth arall yr hoffech chi weld y wefan yn ei wneud?

Sylwadau ategol

Does dim amheuaeth y byddai creu un wefan er mwyn tynnu adnoddau ieithyddol y Gymraeg ynghyd yn gwneud cymwynas fawr â'r defnyddiwr. Byddai creu ffenest siop o'r fath yn sicrhau bod gan bawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg drosolwg o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Byddai'n datrys rhan o'r broblem bresennol, sef bod adnoddau ar wasgar ar y we ac nad yw pob defnyddiwr o reidrwydd yn ymwybodol o bob un ohonynt.

Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, mai cam cyntaf yn unig fyddai hyn. Byddai'n welliant sylweddol ar y drefn bresennol, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth gyfredol, ond ni fyddai'n ddigonol i ddatrys yr ail broblem a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, sef nad 'oes modd i'r defnyddiwr cyffredin wybod beth yw statws y ffynonellau, na pha un sy'n fwyaf tebygol o gynnig yr ateb safonol.'(t. 22) Yn wir, gallai tynnu'r adnoddau hyn ynghyd drwy un porth chwilio *amlygu'r* broblem honno'n gliriach i'r defnyddiwr yn y tymor byr gan danlinellu'r anghysondebau sy'n gallu bodoli rhwng yr adnoddau.

Croesewir felly'r awgrym yn y papur ymgynghori y bydd angen gwneud peth gwaith paratoi a chysoni cychwynnol er mwyn sicrhau llwyddiant y wefan hon, megis cysoni sillafiadau. Mae'r gwaith hwn yn gwbl hanfodol ond gall gymryd amser sylweddol i'w gyflawni. Bydd yn rhaid i'r uned newydd arfaethedig ddylunio gweithdrefn briodol i adnabod a blaenoriaethu cofnodion i'w diwygio a bydd yn rhaid hefyd wrth gyllid digonol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r awgrym ynghylch defnyddio'r wefan ei hun fel arf i adnabod patrymau chwilio a blaenoriaethau defnyddwyr hefyd yn un i'w groesawu. Mae'n hanfodol bod datrysiadau technolegol arloesol yn cael eu cynllunio er mwyn awtomeiddio peth o'r gwaith adnabod hwn a chyflymu'r gwaith o wella'r ddarpariaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod y gall fod pob math o ddefnyddwyr gwahanol i'r wefan hon, o bob oed a gallu ieithyddol. Mae'n hanfodol felly, nid yn unig fod y rhyngwyneb yn cael ei chynllunio i sicrhau profiad hwylus i'r defnyddwyr hyn, ond bod y ddarpariaeth ei hun yn ddigon eang i ymateb i'w holl ofynion. Rhaid wrth eiriaduron i apelio at blant o bob oed (gan gynnwys rhai darluniadol) yn ogystal â geiriaduron fydd yn diwallu anghenion penodol dysgwyr, er enghraifft. Bydd y cyfrwng electronig yn golygu nad yw cyfyngiadau'r dudalen brint yn ystyriaeth a gellid felly gynnwys gwybodaeth ychwanegol am ffurfdroadau, treigladau, arddodiaid ayb.

Er mwyn cynyddu hyder pobl i ysgrifennu Cymraeg da byddai'n gymorth cynnwys cyngor gramadegol chwiliadwy hawdd ei ddeall yn ogystal â chanllawiau ysgrifennu a chynghorion ymarferol tebyg i'r rhai a geir yn *Y Golygiadur* (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf., 2006) ac Arddulliadur Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth. Byddai adnodd yn cynnig

arweiniad ar idiomau a phriod-ddulliau Cymraeg hefyd o gymorth penodol i siaradwyr newydd.

Nid oes sôn yn y ddogfen ymgynghori am gynnwys gwirydd sillafu yn rhan o arlwy'r wefan hon. Byddai cynnig gwirydd sillafu a gramadeg gynhwysfawr rhad ac am ddim a gaiff ei ddiweddarau'n gyson ar sail y gwaith cydlynu arfaethedig yn rhodd i'r defnyddiwr gan y byddai'n gwneud y gwaith caib a rhaw o wirio sillafiadau ar ei ran.

Mae tudalen 20 y ddogfen ymgynghori yn cydnabod gwaith y Comisiynydd yn safoni enwau lleoedd aneddiadau Cymru ac yn awgrymu y byddai'n briodol i'r uned arfaethedig gyfrannu at godi ymwybyddiaeth bellach o'r gwaith hwn. Un dull o wneud hyn fyddai sicrhau bod Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru'r Comisiynydd yn cael amlygrwydd drwy'r rhyngwyneb arfaethedig. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, fod yna enwau eraill sydd yn peri rhwystr cyson i gyfieithwyr, a defnyddwyr eraill, megis enwau strydoedd ac enwau tirweddol. Mae'r Comisiynydd ar fin dechrau prosiect peilot i ystyried rhai o enwau tirweddol Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y peilot hwn yn profi methodoleg a dichonolrwydd y gwaith ond bydd angen sicrhau cyllid digonol cyn cynnig y gwasanaeth hwn yn ehangach.

Yn ogystal â'r uchod, o ystyried y pwyslais ar ieithoedd rhyngwladol ym maes dysgu a phrofiad ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm newydd, dylid cynnwys mynediad at eiriaduron Cymraeg > ieithoedd Ewropeaidd eraill, megis Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg.

I grynhoi felly, mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cynnig ymarferol i greu un rhyngwyneb er mwyn hwyluso'r profiad chwilio i ddefnyddwyr. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, fod yr adnodd hwn yn gwireddu uchelgais y ddogfen ymgynghori o fod yn 'fwy na gwefan chwilio' ac y defnyddir ef fel arf i fapio'r camau nesaf i ddatblygu isadeiledd y Gymraeg er budd defnyddwyr.

Cwestiwn 4b – Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, dan ba amgylchiadau fydddech chi'n defnyddio'r wefan?

Sylwadau ategol

Byddai swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn defnyddio adnodd o'r math hwn wrth gyflawni eu gwaith beunyddiol. Gan fod y trefniadau gweithio o bell a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19 yn debygol o ddylanwadu ar drefniadau gweithio'r dyfodol, mae'n hollbwysig bod gan weithwyr fynediad hwylus at adnoddau ar-lein. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl yn gallu chwilio'r wefan drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau technegol – o liniaduron i ffonau symudol. Amlygwyd yr angen hwn yn ystod y cyfnodau clo diweddar pan fu gofyn i bobl weithio ac astudio o gartref – nid pob aelwyd sydd â mynediad at liniadur felly mae sicrhau mynediad hwylus drwy ffôn symudol yn hanfodol. Awgrymir ar dudalen 22 y ddogfen ymgynghori y byddai ymrwymiad 'gydag amser' i ddarparu adnoddau hefyd drwy apiau i'w defnyddio ar ffonau symudol a dyfeisiau llechen. O ystyried poblogrwydd apiau – yn enwedig ymhlith y genhedlaeth iau – byddai'n dda gallu cynnig y ddarpariaeth hon cyn gynted â phosibl.

Cwestiwn 5a – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A fydd yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yn caniatáu i ni wneud hyn?

Sylwadau ategol

Mae Rhagair y Gweinidog yn crynhoi'n hwylus y prif fater y mae'r polisi drafft presennol yn ceisio mynd i'r afael ag ef:

'Mae'r prif fater sydd angen sylw wedi aros yn go gyson: dryswch i'r defnyddiwr o ganlyniad i nifer o ffynonellau terminoleg a geirfa (mae nifer ohonoch wedi dweud nad ydych chi bob amser yn gwybod at ba un i droi; dyw eraill ddim yn ymwybodol bod rhai ohonyn nhw'n bodoli o gwbl), a bod y ffynonellau hynny'n gallu cynnig argymhellion sy'n groes i'w gilydd. Ry'n ni am helpu i newid hynny.'

Cred y Comisiynydd fod y polisi drafft yn gam pwysig ymlaen tuag at gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. Bydd yn ddigonol i ateb yr anhawster a nodir gan y Gweinidog, sef *ble* mae rhywun i fod i droi os ydyn nhw am wybod beth yw ystyr gair neu beth yw'r cyfieithiad ohono. Mae hi'n llai eglur, fodd bynnag, fod y polisi drafft ar ei ffurf bresennol yn mynd i ganiatáu i'r Llywodraeth ddatrys yr ail anhawster, sef bod y ffynonellau presennol yn aml yn cynnig argymhellion sy'n groes i'w gilydd. Mae'r Gweinidog ei hun yn holi'r cwestiwn allweddol hwn yn y Rhagymadrodd, 'a beth sy'n digwydd os yw'r ateb mewn un man yn wahanol i ateb mewn man arall?'. Hyd y gwelwn nid oes ateb cynhwysfawr i'r cwestiwn hwn yn y polisi drafft na chynlluniau pendant i ddatrys y broblem sylfaenol hon.

Sonnir yn y polisi drafft am 'gydlynu' adnoddau ond mae ystyr y gair 'cydlynu' hwn ychydig yn amwys – a yw'n golygu llawer mwy yn y pen draw na rhoi mynediad hwylus atynt drwy wefan ganolog? Er y mynegir uchelgais yn y cyflwyniad i 'wneud i'r gwahanol adnoddau weithio gyda'i gilydd yn well' gan osgoi dyblygu adnoddau ac anghysonderau, nid oes manylion digonol yn y polisi ynghylch sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod potensial i nifer o'r cynlluniau a gynigir wella'r ddarpariaeth a datrys anghysondebau yn sylweddol dros amser yn ogystal â sicrhau rhagor o gysondeb a darpariaeth fwy cynhwysfawr wrth gomisiynu gwaith at y dyfodol.

Isod, cynigir sylwadau ac awgrymiadau am bob un o'r meysydd datblygu angenrheidiol a amlinellir yn y polisi drafft gan obeithio y byddant o gymorth ymarferol wrth gynllunio'r camau nesaf:

Maes datblygu 1: Geiriaduron

Mae'r Comisiynydd yn cytuno'n frwd â'r awgrym y dylid tynnu prif eiriaduron y Gymraeg ynghyd o dan ofal un sefydliad er mwyn sicrhau gofal golygyddol angenrheidiol a chyson iddynt. Byddai hyn yn fodd o ddatrys y sefyllfa anfoddfaol bresennol a ddisgrifir yng nghyd-destun *Geiriadur yr Academi* lle nad yw'r fersiwn cyhoeddedig wedi cael sylw golygyddol priodol ers bron i 20 mlynedd. Gallai hyn hefyd arwain at arbedion ariannol pe bai'r holl eiriaduron hyn yn cael eu cynnal ar yr un systemau a gweinyddion maes o law.

Byddai darparu geiriadur ar-lein Cymraeg > Saesneg safonol yn gymwynas fawr â'r defnyddiwr ac, o ddod â'r adnoddau presennol ynghyd, mae potensial i gyflawni hynny. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod yna faterion hawlfraint y bydd angen i'r Llywodraeth ymgodymu â nhw wrth gynllunio'r gwaith hwn ac y bydd angen rhoi sylw manwl i sut y mae cynnwys yr arlwy gwerthfawr a gynhyrchir gan unigolion yn rhan o'r darlun hwn. Rhaid pwysleisio, er enghraifft, y byddai cynnwys y Gweiadur yn ateb nifer o'r bylchau a adnabyddir gennym yn yr ymateb i gwestiwn 4a uchod.

Byddai sicrhau gwell cysondeb o ran orgraff geiriaduron y Gymraeg hefyd yn arwain yn naturiol at ragor o gysondeb yn y maes safoni termau maes o law gan fod terminolegwyr o reidrwydd yn troi at eiriaduron am frics a mortar eu crefft hwythau.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n awgrymu bod angen sicrhau gwell hyfforddiant i'r rheini sydd am fod yn eiriadurwyr er mwyn i'r pwll o bobl sy'n gallu gwneud y gwaith gynyddu. Ochr yn ochr â sicrhau llwybrau hyfforddiant priodol, wrth gwrs, bydd angen darparu ffrydiau ariannu digonol i recriwtio geiriadurwyr i ymgymryd â'r gwaith newydd arfaethedig ac i greu gyrfaoedd deniadol fydd yn caniatáu i bobl ddatblygu yn eu swyddi.

Maes datblygu 2: Terminoleg

Mae'r Comisiynydd yn cytuno bod angen creu uned newydd i gydlynu'n well yr ymdrechion safoni termau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac i ddarparu ffynonellau cyllid sefydlog i'r gwaith. Mae'n hawdd gweld sut y bydd gwaith cynllunio'r uned hon yn sicrhau llai o ddyblygu ymdrechion at y dyfodol ond nid yw'n amlwg yn y tymor byr o ble y daw'r buddsoddiad neu'r cynllun i adolygu a chysoni'r gwaith sylweddol a gyflawnwyd yn y meysydd hyn hyd heddiw. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn darparu nawdd digonol i fynd i'r afael â'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod modd adeiladu mewn modd ystyrlon ar ymdrechion a sylfeini'r gorffennol.

Cytunwn hefyd y byddai sefydlu gwasanaeth ymholiadau termau brys o gymorth i sefydliadau a defnyddwyr yng Nghymru. Nid oes rhaid mai swyddogion yr uned newydd fyddai'n darparu'r gwasanaeth hwn yn uniongyrchol – gellid ystyried comisiynu contractwr allanol i ddarparu'r gwasanaeth er mwyn manteisio ar isadeiledd safoni termau'r contractwr. Dylai'r uned fod â rôl ganolog yn marchnata ac yn lledaenu gwybodaeth am y termau newydd hyn, fodd bynnag, er mwyn pwysleisio eu statws.

Mae'r cyfrifoldebau sganio'r gorwel a arfaethir ar gyfer yr uned hon yn hollbwysig. Mae'r ddogfen ymgynghori'n awgrymu y byddai cyfrifoldeb gan yr uned i archwilio pa ddulliau fyddai orau ar gyfer safoni pecynnau terminoleg. Dymuna'r Comisiynydd gofnodi ei fod yn falch bod un o'i swyddogion wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i safoni terminoleg Gymraeg ym maes cydraddoldeb Hil ac Ethnigrwydd yn ddiweddar. Mae trefniadau'r grŵp hwnnw wedi gweithio'n effeithiol iawn hyd yma a cheir model i'w efelychu yno, o bosibl. Bydd angen darparu cyllid digonol i gomisiynu gwaith ymchwil gan derminolegwyr i gefnogi ymdrechion grwpiau tebyg yn y dyfodol a'u galluogi i fynd i'r afael â nifer ystyrlon o dermau.

Maes datblygu 3: Corpora

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod pwysigrwydd y maes datblygu hwn i gynnal a sbarduno datblygiadau ym maes technoleg iaith, yn ogystal ag er mwyn creu adnoddau ieithyddol ar sail tystiolaeth. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r pwyslais a roddir yn yr adran hon ar sicrhau bod adnoddau corpws ar gael o dan drwydded agored a'r cynnig bod yr egwyddor o ddarparu adnoddau ar drwydded agored yn berthnasol i gymaint â phosibl o'r adnoddau a grybwyllir yn y polisi drafft. Anogir y Llywodraeth felly i archwilio o ddefnyddio dulliau o oresgyn y cyfyngiadau hawliau deallusol a allai brofi'n rhwystyr i'r uchelgais hon.

Maes datblygu 4: Safoni

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r camau diweddar mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i gynnull Panel Safoni'r Gymraeg yn unol ag argymhelliad y Panel Cydgysylltu Safoni Termau a Geiriadura a gynullwyd gan y Comisiynydd a'r gwaith cynllunio pellach a wnaed gan y Comisiynydd ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae swyddog o swyddfa'r Comisiynydd yn aelod o'r Panel ac yn tystio i ba mor ffrwythlon ac adeiladol y mae'r trafodaethau wedi bod hyd yma â ffocws eglur ar ganfod datrysiadau ymarferol fydd yn hawdd eu hegluro i bob siaradwr Cymraeg. Mae'n eglur bod potensial mawr i'r Panel hwn ddatrys yn hwylus nifer o'r mân wahaniaethau orgraffyddol sy'n bodoli rhwng ffynonellau ar hyn o bryd. Mae'n ddyddiau cynnar ar y Panel yma, fodd bynnag, a rhaid sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i hwyluso'i drafodaethau a chodi ymwybyddiaeth o'i statws. Bydd angen sicrhau bod gwasanaethau gweinyddol, ymchwil a chorpws priodol ar

gael i'r Panel er mwyn i'r gwaith esblygu i fynd i'r afael â darparu canllawiau gramadegol, er enghraifft.

Croesewir y sylw a roddir i gyfrifoldeb penodol y Comisiynydd i safoni enwau lleoedd yn y ddogfen a'r gydnabyddiaeth fod y gwaith safoni hwn yn sefyll ar wahân i ymdrechion safoni cyffredinol yr iaith. Mae'r Comisiynydd yn croesawu amcan y Llywodraeth i godi statws yr holl wahanol fathau o safoni sy'n digwydd yng Nghymru ac mae'n awyddus i archwilio ymhellach sut y gellir ymestyn awdurdod a dylanwad y Comisiynydd yn y maes hwn. Mae hyn yn hanfodol gan nad yw pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd fel mater o drefn. Weithiau ceir sefyllfa lle mae corff yn dilyn argymhellion y Comisiynydd am y ffurfiau Cymraeg i'w defnyddio mewn testunau Cymraeg ond yn dewis dilyn barn neu benderfyniad swyddogion am y ffurfiau i'w defnyddio mewn testunau Saesneg. Gwelwyd enghraifft nodedig o hynny'n ddiweddar wrth i Rebecca Evans AS gyhoeddi ei phenderfyniadau ynghylch enwau wardiau yn Rhondda Cynon Taf gan fynd yn groes i argymhellion y Comisiynydd a'r Comisiwn Ffiniau. ([Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Ffiniau Etholiadol Awdurdodau Lleol – yr wybodaeth ddiweddaraf \(24 Mehefin 2021\) | LLYW.CYMRU](#)). Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu arddel Llwynypia yn y Gymraeg ond Llwyn-y-pia yn Saesneg, Ynys-y-bwl yn y Gymraeg ond Ynysybwl yn Saesneg, Pont-y-clun yn Gymraeg ond Pontyclun yn Saesneg ayb. Mae hyn yn llwyr anwybyddu confensiynau safoni a'r egwyddor sylfaenol a hyrwyddir gan y Comisiynydd y dylid anelu am un ffurf pan mae llythyren neu ddwy o wahaniaeth sydd rhwng y ffurfiau Cymraeg a'r ffurfiau 'Saesneg'.

Maes datblygu 5: Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd

Mae'r Comisiynydd yn cytuno â'r weledigaeth sylfaenol o greu un rhyngwyneb i sicrhau mynediad hwylus i ddefnyddwyr at adnoddau'r seilwaith. Y mae'n hanfodol, fodd bynnag, fod y buddsoddiad hwn yn arwain at greu adnodd sydd yn fwy na gwefan chwilio yn unig a bod y dechnoleg yn hwyluso gwaith cynllunio a chomisiynu'r uned arfaethedig. Mae'n cydnabod y gall fod yna waith sylweddol i dagio a strwythuro cronfeydd y gwahanol brosiectau mewn dull a fydd yn caniatáu i bobl chwilio drwyddynt ar y rhyngwyneb canolog. Bydd hi'n hanfodol sgopio a chynllunio'r gwaith hwn yn drylwyr cyn cychwyn arno i ystyried a oes modd cyflawni pethau eraill yn rhan o'r un dasg – adnabod anghysonderau neu fylchau, er enghraifft. Byddai hefyd modd ystyried a oes potensial i orffen y gwaith cychwynnol o brawfddarlenn *Geiriadur yr Academi* yn rhan o'r un broses.

Mae'r Comisiynydd yn nodi'r bwriad fod pob geiriadur a chronfa dermau yn parhau'n brosiectau annibynnol â'u gwefannau eu hunain. Bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa hon dros amser ac ystyried dichonolrwydd comisiynu a chaffael isadeiledd a gwefannau ar y cyd er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus a bod pob un o'r prosiectau'n gallu manteisio ar dechnoleg arloesol o'r radd flaenaf.

Maes datblygu 6: Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg

Cred y Comisiynydd ei bod hi'n hollbwysig sefydlu corff sydd â chyfrifoldeb penodol dros gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg a sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg yr adnoddau ieithyddol angenrheidiol i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Mae hyn yn arfer gyffredin mewn gwledydd sydd â ieithoedd mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori. Rhaid pwysleisio hefyd fod y sefydliadau hyn yn darparu cyllid sefydlog dros dymor estynedig i asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad prosiectau a meithrin arbenigedd.

Mae'r Comisiynydd yn cytuno y bydd angen staffio'r uned hon yn gywir er mwyn iddi fod yn y sefyllfa orau i gynllunio'r maes yn ogystal ag ymateb i ymholiadau ieithyddol. Mae'r adran hon yn y ddogfen ymgynghori yn sôn am benodi pennaeth ac uwch-swyddog er

mwyn cychwyn ar y gwaith ond nodir ym maes datblygu 5 y byddai angen penodi technegwyr iaith i fod yn gyfrifol am greu'r wefan a'i rheoli o ddydd i ddydd. Ym marn y Comisiynydd byddai angen yr holl swyddogion hyn, fel lleiafswm, er mwyn dechrau ar y gwaith o gydlynu maes sydd wedi cael ei esgeuluso ers blynyddoedd lawer.

Mae rôl arfaethedig yr uned yn 'sganio'r gorwel' ac yn adnabod yn rhagweithiol feysydd lle mae comisiynu gwaith ynddynt yn hanfodol. Bydd hyn yn sicr o arwain at sefyllfa lle bydd adnoddau a gomisiynir yn y dyfodol wedi'u cydlynu'n well ac yn arddel yr un safonau cydnabyddedig. Er mwyn i'r uned hon fod yn wirioneddol effeithiol bydd angen iddi gadw golwg ar y gwaith a gyflawnwyd yn y gorffennol hefyd gan sicrhau bod yr ymdrechion hynny'n cael eu diwygio a'u datblygu yn ôl y galw.

Mae'r cyfrifoldeb penodol fydd ar yr uned i farchnata'i gwaith a'r arlwy yn hollbwysig ond nid yw'n glir o'r polisi drafft pa adnoddau marchnata fydd ar gael i'r uned. Awgrymir y byddai lleoli'r uned o fewn i'r Llywodraeth yn arbed ar gorbenion o safbwynt strwythurau gweinyddol, megis gwasanaethau adnoddau dynol, ond a fydd mynediad gan yr uned at adnodd marchnata Prosiect 2050, er enghraifft?

Cwestiwn 5b – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A oes unrhyw beth ar goll o'r polisi drafft?

Sylwadau ategol

Mae'r polisi drafft yn amlinellu'n eglur sut y bydd yn rhoi trefn ar ffenest siop maes seilwaith y Gymraeg, drwy sicrhau mynediad hwylus at y prif adnoddau drwy un wefan chwilio. Nid oes manylder ynghylch sut yr eir ati i roi trefn ar yr adnoddau y bydd modd eu chwilio drwy'r ffenestr siop hyn, fodd bynnag, na phwyslais digonol ar yr angen i gysoni, safoni a diwygio ymdrechion y gorffennol. Er y bydd gwaith y Panel Safoni'n gyfraniad gwerthfawr tuag at ddatrys mân anghysonderau orgraffyddol ni fydd yn gallu tacio sefyllfaoedd lle ceir sawl term i ddisgrifio'r un cysyniad. Derbynnir i raddau y byddai mynd i'r afael â'r manylder hwn yn rhan o briod waith yr uned newydd. Rhaid sicrhau felly nad arwynebol yn unig fydd unrhyw ymgais i gydlynu'r ddarpariaeth bresennol ac y bydd gan yr uned yr awdurdod a'r adnoddau angenrheidiol i ddatrys y materion hyn.

Nid yw'r polisi drafft yn amlinellu chwaith sut y gellir cynnwys gwaith gwerthfawr gan unigolion a gweisg sydd ddim yn cael eu henwi yn y ddogfen na'u hariannu gan y Llywodraeth.

Mae'r polisi drafft yn pwysleisio sut yr ymdrinnir â geirfa'r Gymraeg yn benodol ond mae lle hefyd i awgrymu bod angen gwell trefn ar gyfer safoni geirfa'r Saesneg hefyd. Amlygwyd yr angen hwn o'r newydd yn nhrefnadaethau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Terminoleg Gymraeg ym maes Hil ac Ethnigrwydd lle cafwyd weithiau bod terminoleg Saesneg yn y maes yn anfodddhaol neu'n anaddas. Byddai potensial i'r Uned hon o fewn y Llywodraeth ymgymryd â'r gwaith arloesol ac angenrheidiol o safoni termau *Cymru* gan gynnig arweiniad arbenigol ynghylch pa dermau sydd fwyaf derbynol, neu sy'n fwyaf cywir yn gysyniadol, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwestiwn 5c – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A ddylen ni ddilyn trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r meysydd hyn?

Sylwadau ategol

Ym marn y Comisiynydd mae trywydd cyffredinol y polisi yn gywir. Mae hi i'w groesawu fod y Llywodraeth yn dangos parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros gydlynu'r maes a'i gynllunio'n strategol at y dyfodol ar sail angen. Mae hyn yn cyd-fynd â barn y Comisiynydd mai dim ond y Llywodraeth sydd â'r awdurdod â'r ffrydiau cyllido angenrheidiol i gydlynu'r maes hwn yn llwyddiannus. Mae hefyd yn synhwyrol gan fod y Llywodraeth eisoes yn ariannu nifer o'r prosiectau dan sylw. Byddai lleoli'r adran arfaethedig o fewn i'r Llywodraeth yn y tymor byr yn gwneud synnwyr am resymau strategol ac ymarferol, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Byddai hefyd yn fodd ymarferol i ddyrchafu statws gwaith ym maes seilwaith y Gymraeg. Bydd angen ystyried yn y tymor canolig, fodd bynnag, ai dyma'r trefniant gorau ar gyfer uned o'r fath neu a fyddai strwythur llywodraethiant arall yn fwy pwrpasol. Ni ddylid oedi ymhellach cyn cymryd camau penderfynol i greu'r strwythurau newydd hyn sydd â photensial i gydlynu gweithgareddau yn y maes yn well dros amser, yn ogystal ag adnabod a chynllunio'n benodol ar gyfer anghenion y dyfodol. Mae'n hollbwysig fod amserlen bendant yn cael ei chyhoeddi ar gyfer y gwaith hwn cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi hyder i randdeiliaid bod y Llywodraeth o ddifri am gymryd cyfrifoldeb dros ddyfodol a hyfywedd seilwaith y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol cydnabod ar yr un pryd mai'r cyfeiriad cywir i *ddechrau'r* broses a amlinellir yn y ddogfen bolisi dan sylw. Mae'r olaf o'r meysydd datblygu, sef creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn gwbl hanfodol i sicrhau bod ymdrechion ym maes y seilwaith yn cael eu cydlynu'n strategol. Rhaid trefnu felly fod gan yr uned arfaethedig hon yr adnoddau priodol i wneud ei waith ac i gomisiynu eraill i gyflawni gwaith ar ei ran. Mae tudalen 26 y ddogfen ymgynghori yn nodi'n eglur nad yw'n fwrriad gan y Llywodraeth i *leihau'r* symiau ariannol sydd ar hyn o bryd yn cael eu dosbarthu ar gyfer gwahanol brosiectau seilwaith ieithyddol. Croesewir y sicrwydd hwn ond rhaid gwneud yn siŵr hefyd y bydd awdurdod digonol gan yr uned i gynllunio trefniadau ariannu strategol a chynhwysfawr a fydd yn sicrhau gwerth am arian yn ogystal â buddsoddiad digonol, sefydlog a thymor hir i'r maes.

Rhaid cydnabod hefyd fod y ffaith nad oes gwaith diweddarar na diwygio wedi bod ar rai o'r adnoddau hyn ers eu cyhoeddi yn golygu y bydd angen buddsoddiad sylweddol cychwynnol mewn rhai achosion. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymdrechion y gorffennol yn parhau'n gyfoes ac yn ddefnyddiol ac na fydd yr arian cyhoeddus sylweddol a fuddsoddwyd ynddynt yn y gorffennol yn mynd yn ofer.

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y polisi drafft hwn am seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Byddai'r cynigion yn y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu gwefan ganolog fydd yn hwyluso mynediad dysgwyr a phobl sydd ddim eto'n medru'r Gymraeg at adnoddau ieithyddol hanfodol. Bydd y gwasanaeth ymholiadau am dermau newydd hefyd yn gymorth i sicrhau bod gan y Gymraeg ddarpariaeth briodol er mwyn atal pobl rhag troi i ddefnyddio termau newydd sy'n plwyfo'n ddirwysr yn y Saesneg. Bydd y gwasanaethau hyn yn neilltuol o werthfawr i rieni neu warcheidwaid sydd wedi dewis addysg Gymraeg i'w plant. Mae ganddynt hefyd y potensial i *gyfoethogi* profiadau pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg gan eu harfogi â'r seilwaith ieithyddol angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg â hyder ym mhob agwedd ar fywyd.

Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Fel yr awgrymwyd gydol yr ymateb hwn, bernir mai camau cyntaf cadarnhaol a phragmataidd a amlinellir yn y polisi drafft hwn. Bydd angen sicrhau bod gan yr uned newydd arfaethedig yr arbenigedd, yr adnoddau, a'r awdurdod angenrheidiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf a chydgysylltu'r seilwaith yn briodol er mwyn sicrhau rhagor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd, gallu a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gyfod i ni amdanynt.

Mae Rhagair y Gweinidog yn cydnabod bod cynnwys y ddogfen ymgynghori yn adeiladu ar waith blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd yn falch hefyd o gael gwahoddiad i fod yn aelod o grŵp o arbenigwyr i gynghori'r Llywodraeth wrth iddi lunio'r polisi drafft hwn.

Roedd *laith fyw*: *iaith byw* yn gwahodd y Comisiynydd i 'gydgysylltu' datblygiadau yn y maes safoni termau Cymraeg yng Nghymru. I fynd i'r afael â'r dasg o gydgysylltu, cynullodd y Comisiynydd banel o arianwyr strategol a rhanddeiliaid allweddol. Nod y panel oedd ystyried dulliau posibl o gydweithio er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg. Roedd aelodau'r panel yn cynrychioli prif lunwyr polisi ac arianwyr y maes yng Nghymru ynghyd ag aelodau cyswllt eraill. Gwahoddwyd swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru hefyd er mwyn darparu gwybodaeth am brosiectau perthnasol y Llywodraeth a rhoi tystiolaeth am ddarpariaethau ac anghenion terminolegol Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth.

Cyfarfu'r panel bedair gwaith yn ystod 2013–14 i drafod papurau ymchwil ac i rannu o'u profiad o gomisiynu ac ariannu gwaith yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd. Yn ogystal, cynhaliodd dirprwyaeth o'r panel gyfarfod casglu tystiolaeth â phrif ymarferwyr y maes.

Daeth y panel i nifer o gasgliadau allweddol am y gweithgarwch yn y maes. Cyflwynodd y Comisiynydd y casgliadau hyn i'r Prif Weinidog, oedd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ar y pryd, ac mae wedi parhau i dynnu sylw Gweinidogion dilynol sydd wedi bod â chyfrifoldeb am y Gymraeg atynt. Mae gwerth eu hailadrodd yn y fan hon gan eu bod yr un mor berthnasol ag erioed, ac yn ategu'r brif neges a geir yn y ddogfen ymgynghori dan sylw, nad yw anghenion y Gymraeg na'i siaradwyr yn cael eu diwallu gan y drefn bresennol:

1. Mae'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni, a'r gwaith sydd ar y gweill yn y maes hwn ac mewn meysydd cysylltiedig yn sylweddol.
2. Fodd bynnag, mae'r drefn gyllido ar gyfer y maes yn aml yn dameidiog ac yn fyrhoedlog ac mae i'r diffyg sefydlogrwydd ariannol hwn oblygiadau ar gyfer safon y gwaith a gynhyrchir, dilyniant a pharhad gwaith terminolegol, meithrin sgiliau ieithyddol ayb.
3. Nid oes digon o gynllunio bwriadus na chydlynu ymdrechion wedi bod yn y maes hyd yma ac o ganlyniad bu dipyn o ddyblygu gwaith a gwariant.
4. Mae nifer fawr o ffynonellau terminoleg a geirfa yn bodoli ar hyn o bryd. Mae hyn yn peri dryswch i'r defnyddiwr, yn enwedig gan fod y ffynonellau hynny yn aml yn cynnig argymhellion sy'n groes i'w gilydd.
5. Nid yw'n glir, ychwaith, beth yw perthynas y ffynonellau hyn â'i gilydd a gall hyn beri dryswch i ddefnyddwyr sy'n chwilio am atebion awdurdodol.
6. Mae'r maes hwn yn un sy'n datblygu'n barhaus ac yn un sy'n gofyn am fuddsoddiad cyson a strategol er mwyn ymateb i'r galw.
7. Mae angen sefydlu trefn i'r dyfodol a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni yn y maes ac yn dwyn arbenigeddau a chryfderau'r ymarferwyr presennol ynghyd.
8. Roedd y panel yn dymuno pwysleisio hefyd ei bod hi'n gwbl hanfodol nad yw gwaith terminoleg a geiriadur yn cael ei weld fel disgyblaeth ar ymylon yr agenda cynllunio ieithyddol. Mae perthynas uniongyrchol rhwng ymdrechion yn y maes hwn ac iechyd a hyfywedd yr iaith.

Nid oes lle i gredu fod y Llywodraeth yn gweld y seilwaith ieithyddol fel disgyblaeth ar ymylon yr agenda cynllunio ieithyddol. I'r gwrthwyneb, croesewir y lle canolog sydd iddo yn strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* ac yn *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* y Llywodraeth. Croesewir hefyd y ffaith bod y ddogfen ymgynghori bresennol yn adleisio canfyddiadau'r Panel am y maes. Bydd cynigion y polisi drafft yn gam cyntaf pragmataidd tuag at ddelio â nifer o'r canfyddiadau hyn a hwyluso mynediad pobl at adnoddau ieithyddol.

Ond fel y pwysleisir yn y ddogfen ymgynghori ei hun, mae datblygiadau yn y maes hwn wedi bod yn araf dros ben, ar gyfrif ei gymhlethdod, ac ni ddylid oedi ymhellach cyn cychwyn ar brosesau fydd â photensial i asio'r ddarpariaeth yn well yn y dyfodol. Rhaid sicrhau bod gan y Llywodraeth bresennol amserlen bendant ac uchelgeisiol i wireddu uchelgais y polisi drafft ac na fydd yr ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei ychwanegu at y rhestr o drafodaethau am y maes hwn nad ydynt eto wedi dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, y tu hwnt i sicrhau mynediad hwylus at yr adnoddau a ddarperir eisoes gan amryw ddarparwyr, nid yw'r polisi presennol yn mynd i'r afael â sut y gellir sefydlu trefn i'r dyfodol a fydd yn dwyn arbenigeddau a chryfderau'r ymarferwyr ynghyd mewn modd strategol. Mae'n bolisi sy'n mynd i'r afael â'r ffenestr siop a darparu ar gyfer anghenion terminolegol y dyfodol heb fynd i'r afael â materion dyrys y strwythurau, neu'r isadeiledd, sy'n cynnal yr adnoddau presennol. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod hynny'n fater cymhleth ac mae'n anorfod bod angen cymryd un cam ar y tro. Ond rhaid sicrhau ar yr un pryd bod gweledigaeth eglur o'r cychwyn cyntaf ynghylch beth fyddai pen draw delfrydol y daith a chynllunio gwasanaethau a chyllidebau yn unol â hynny.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

